Y Parchedig D. T. Evans
1962-83

Un o Fynydd-bach ger Abertawe oedd y Parchedig D. T. Evans. Graddiodd â B.A. o Goleg Abertawe a B.D. o Goleg Presbyteraidd Caerfyrddin ac o Goleg Mansfield, Rhydychen ac yr oedd ganddo radd M.A. hefyd. Derbyniodd alwad i Bryn Seion, Glanaman yn 1947. Yn dilyn ymadawiad y Parchedig R. J. Jones yn 1961, derbyniodd y Parchedig D. T. Evans alwad i Minny Street a daeth ef a'i briod, Lena, a'r plant, Siân a Non atom.

Yr oedd y Parchedig D. T. Evans yn bregethwr cadarn; craidd ac ysgogiad ei bregethu oedd dysgu, argyhoeddi a goleuo – pregethau addysgiadol oedd yn cydio. Roedd y ddawn ganddo i drosglwyddo neges yr Efengyl yn syml a chlir fel bod pawb yn gallu ei deall. Cyfrannodd yn helaeth i'r gwasanaethau, y cwrdd wythnosol, y cwrdd gweddi a'r Ysgol Sul. Yr oedd yn gerddor dawnus hefyd yn meddu ar radd L.R.A.M. a chanddo lais tenor persain. Bu ef a Mrs Evans yn dîm rhagorol eu gofal, ill dau â'u diddordeb yn ddi-baid, yn rhannu llawenydd a gofidiau'r aelodau. Yn ystod ei gyfnod ef hefyd bu llawer o newidiadau i'r capel ac ehangwyd nifer yr ystafelloedd yn y festri ar y llofft yn ogystal ag ar y llawr.

Yr oedd yn ffrind i'w gydweinidogion yn y ddinas a phrofwyd o'i ddoethineb wrth drefnu gwaith cydenwadol ymhlith y Cymry a'r Saeson, Cymorth Cristnogol a'r Feibl Gymdeithas. Cydnabyddwyd y parch oedd iddo pan ddewiswyd ef yn Llywydd Undeb yr Annibynwyr yn 1982. Gwaetha'r modd fe'i trawyd yn wael ac ni allodd draddodi'r araith, a oedd eisoes wedi ei pharatoi, yng nghyfarfod yr Undeb yn Hen Golwyn y flwyddyn ganlynol. Bu farw fis Mehefin 1983.

Cytunai pawb iddo fod yn weinidog yng ngwir ystyr y gair. Gosodwyd coflech iddo yn y capel ym Minny Street ac arni'r arysgrif, '*Llawenhewch yn yr Arglwydd yn wastadol*'.

(John H. Davies *allan o* ***Llewyrch Ddoe, Llusern Yfory***. 2009. *Gol:* J. Gilbert Evans, Glyn E. Jones, Iolo M.Ll. Walters; cyhoeddwyd gan Eglwys Annibynnol Minny Street Caerdydd)